


papur



priordy



**Clyw ni, fwyn Waredwr,
Tyner iawn wyt Ti;
Plant diniwed gedwi –
Clyw ein gweddi ni:**

**David Adams (Hawen) 1845-1922
Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul (143)**

**Dewiswyd gan Jill Edwards
*Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn***

**Rhifyn 349
PAPUR TACHWEDD 2021**

Gair gan ein Gweinidog

Neges Llywydd yr Undeb i'r Eglwysi ar drothwy Cynhadledd COP26 yn Glasglow



RHAID GWEITHREDU AR LEFEL BERSONOL A RHYNGWLADOL I DACLO'R ARGYFWNG HINSAWDD

Wrth i arweinwyr y gwledydd baratoi i gwrdd yn Glasglow i drafod ffyrdd o leddfu effeithiau dinistriol newid hinsawdd, mae dyletswydd arnom ni i gyd i wneud ein rhan.

Newid hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i ddynoliaeth erioed, a rhaid gweithredu'n gyflym ac yn gadarn os am ddiogelu dyfodol ein hil ar y blaned hon.

Dyna rydym yn galw ar y gwleidyddion yng nghynhadledd fawr COP26 i'w wneud. Ond hefyd, fel Cristnogion sy'n credu mai Duw sydd berchen ar y ddaear hon a phopeth arni, mae dyletswydd personol a chymdeithasol arnom i ymgychu a gweithio'n ymarferol i leihau ein niwed i'r ddaear – a hynny ar frys.

Felly, rwy'n galw ar ein heglwysi ni fel Annibynwyr Cymreig – a chymunedau ffydd eraill – i droi at ynni glân ac adnewyddol i gynhesu eu hadeiladau, i blannu blodau a llwyni a choed wrth eu capeli lle bo'n addas, i ddewis teithio ar fsysys a threnau cyhoeddus neu geir trydan a *hybrid*, i gefnogi mudiadau ac ymgyrchoedd sy'n gwarchod y ddaear, ac i ddatgan ein pryder am y bygythiad i'r blaned hardd hon i'n cynrychiolwyr gwleidyddol.

Yn fwy nag erioed, rydym yn gymdogion fel cenhedloedd ledled y byd - yn wynebu'r un dynged ble bynnag yr ydym. Safwn gyda'n gilydd wrth garu'r ddaear, neu syrthiwn mewn hunanoldeb.



Gweddïwn

Arglwydd Dduw,

fe wnest ti greu'r byd a datgan
ei fod yn 'dda iawn'.



Ac eto, dydyn ni ddim wedi trin y ddaear na phobl eraill â'r
gofal a'r parch y maen nhw'n eu haeddu.

Mae'n ddrwg gennym a gofynnwn am dy faddeuant.
Rho'r dewrder inni barhau i godi ein lleisiau am yr argyfwng
hinsawdd,
sy'n effeithio waethaf ar bobl sy'n byw mewn tldi.

A rho Ysbryd heddych yng nghalonau pawb, fel y bo
gwrthdaro'n diweddu mewn heddych, a pherthnasoedd
rhwyng pobl yn cael eu hadfer.

Gweddïwn am dy fendith dros arweinwyr llywodraethau'r byd
yn ystod cynhadledd COP26. Rho ddoethineb a dewrder
iddynt yn eu trafodaethau.

Yn enw Iesu Grist

Amen.

Addasiad o weddi gan Tearfund



DARLLENIADAU



Mis Hydref	Darlleniad
Wythnos 1	Ioan 11: 32-44
Wythnos 2	Marc 12: 38-44
Wythnos 3	Marc 13: 1-8
Wythnos 4	Ioan 18: 33-37
Wythnos 5 – Adfent 1	Luc 21: 25-26

GŴYL DDIOLCHGARWCH Y PRIORDY



Catrin Gwyn....

Yn y bore

Diolchgarwch y Plant

BRAF oedd cael cwrdd eleni yn y capel ar gyfer gwasanaeth Diolchgarwch y Priordy. Roedd y bwrdd o dan y pulpud wedi cael ei addurno â ffrwythau a llysiau hyfryd, yn cynnwys cynnyrch o ardd yr Athro Emeritws Desmond Hayes.



Cawsom ein croesawu i'n seddi gan sain y band cyn i ni gael gweddi agoriadol a chroeso twymgalon (fel yr arfer) gan Beti-Wyn. Eglurodd hi mai 'bananas' fyddai thema'r gwasanaeth eleni a'i bod yn thema addas ar ein cyfer ni yn y Priordy (ei geiriau hi cofiwch, nid fy ngeiriau i!).



Yn anffodus eleni, nid oedd modd i ni weld y plant a'r bobl ifanc yn cario'r pasta a'r tuniau a'u cyflwyno, ond yr un mor hael oedd y cyfraniadau ag erioed. Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin.

Wedi canu'r emyn cyntaf, *Diolch iti lôr*, roedd hi'n amser dathlu bedydd Miriam. Darllenodd Beti-Wyn adnodau o Luc cyn iddi fedyddio Miriam. Cyflwynodd Meredydd dystysgrif a Beibl i Miriam ac fe gafodd Greta gylchgrawn am fod yn chwaer fawr mor arbennig. Roedd yn ddathliad hapus yng nghwmni teulu a ffrindiau.

Cyflwynwyd yr emyn nesaf, *Dod ar Fy Mhen*, yn glir iawn gan Gwern a Lliwen a gwaith Anni, Iestyn, Ifan a Cadi oedd casglu ar gyfer y casgliad.

Lansiad cyffrous iawn ddaeth nesaf! Rydyn ni i gyd wedi clywed bellach fod y Priordy wedi ennill grant sylweddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg o £10,000 bob blwyddyn am y 5 mlynedd nesaf. Cyhoeddodd Beti-Wyn hefyd fod cyfraniad ariannol wedi dod gan Glwb Rotari Tywi Caerfyrddin. Cawsom y cyfle i wyllo fideo byr o Beti-Wyn yn esbonio'r grant gyda diolch yn fawr i Iestyn O'Leary am roi'r ffilm at ei gilydd mor gelfydd. Edrychwn ymlaen at weld prosiectau cyffrous eraill yn y Priordy yn y dyfodol agos!

Cafodd Beti-Wyn eistedd ac ymlacio am y tro gan mai tro'r plant ifanc oedd hi i arwain a chymryd yr awenau. Nansi ddaeth i'r pulpud yn gyntaf i'n hatgoffa mai dyma'r amser o'r flwyddyn mae Cristnogion yn diolch i Dduw am ei haelioni. Aeth ymlaen i ddarllen adnod o lyfr Mathew cyn esbonio fod y Beibl yn dweud bod Duw wedi creu'r byd a phopeth sydd ynddo, a'i fod yn meddwl bod y cyfan yn dda, ac felly ei bod yn bwysig ein bod ni hefyd yn ddiolchgar am ein byd a'r bwyd rydyn ni'n ei fwynhau pob dydd.



Roedd hi'n hyfryd clywed yr aelodau ifancaf yn mwynhau cyd-ganu cân *Aderyn Melyn*, cân am goed bananas, coed Fanta ... a hyd yn oed coed sbagetii!! Cawsom ffeithiau diddorol am y bananas gan Trystan ac Osian. Oeddech chi'n gwybod fod pobl ar draws y byd yn gwario £10 biliwn ar fananas mewn blwyddyn?! Oeddech chi'n gwybod mai Ynysoedd y Gwynt yn y Caribî sy'n cynhyrchu'r nifer fwyaf o fananas Masnach Deg ar gyfer gwledydd Prydain?

Aethant yn eu blaenau i esbonio pwysigrwydd Masnach Deg gan fod y mudiad yn gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael eu talu'n deg am eu gwaith. Darllenwyd adnod o lyfr Mathew: *Dylech chi bob amser drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw eich trin chi*. Neges bwysig iawn i ni i gyd. Wedi hynny, arweiniodd Luned ni mewn gweddi a oedd yn gofyn i Dduw ein hatgoffa i fod yn ddiolchgar.

Neges bwysig iawn oedd gan Beti-Wyn i ni ar ddiwedd yr oedfa. Aeth ati i esbonio fod cemegyn arbennig iawn mewn bananas sy'n ein gwneud i deimlo'n hapus. Gallwn hefyd edrych ar y banana a dwyn cymhareb rhwng y ffrwyth a'n bywydau ni. Mae'r bananas yn aeddfedu, yn union fel ni. Hefyd, yn aml iawn ar fananas ceir marciau ar y tu fas, ond wedi agor y ffrwyth mae'n berffaith ar y tu mewn. Esboniodd Beti-Wyn nad y pethau allanol sy'n bwysig; ein gwisgoedd, steil ein gwallt neu faint o golur rydyn ni'n ei wisgo, ond yn hytrach yr hyn sydd y tu mewn



ROEDD yn wasanaeth llawn dathlu - dathlu bedydd, dathlu'r banana a dathlu haelioni Duw. Diolch i bawb a gymerodd ran a diolch i Beti-Wyn am baratoi'r oedfa.

Yn yr Hwyr

Oedfa Bregethu a Chymundeb

Roedd cynulleidfada dda'n bresennol, yn cynnwys cyfeillion o gapeli'r Ofalaeth a'r dref. Llywyddwyd yr oedfa gan ein Gweinidog gyda'r rhannau arweiniol yng ngofal Adrian Evans (darlleniad) a Peter Hughes Griffiths (gweddi). Croesawyd ein pregethwr gwadd, **y Parchedig Ddoethur Adrian Morgan, Rheithor Gorseinon a Chasllwchwr**, atom ynghyd â chydweithiwr iddo, Ben Jones, sy'n paratoi ar gyfer yr offeiriadaeth. Pryder oedd thema neges y pregethwr gwadd a'r sbardun yn yr adnodau a glywyd yn y darn darllen yn dwyn y teitl *Gofal a Phryder* ym Mhennod 6 yn Efengyl Mathew. Rydyn ni oll wedi mynd drwy gyfnod anodd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf – cyfnod o boeni a'r pryder yn gallu troi'n orbryder yn ddigon rhwydd a'n caethiwo, a hynny'n ddiangen yn aml iawn. Yn ffodus, roedd gan y pregethwr gwadd neges i'n calonogi a gair o gyngor ymarferol. Awgrymodd i ni nodi'n pryderon a gweithredu arnynt ble medrwn ac offrymu gweddi ac ymddiried yn Nuw pan deimlwn eu bod y tu hwnt i'n gafael. Mae Duw yn Iesu'n gallu'n gwarchod a chynnis tangnefedd i ni a defnyddio popeth er ein lles gan wneud daioni o'r cyfan. Roedd y Cymundeb yng ngofal ein Gweinidog a chafodd gymorth Adrian Evans a Philip Jones i rannu'r elfennau. Defnyddiwyd elfennau Covid ddiogel wedi'u pecynnu ymlaen llaw. Y cyhoeddwr oedd Catrin Heledd Jones a Gwynfor Davies a'r Dr Huw Michael oedd y casglyddion. Roedd Heather Williams wrth yr organ. Yn dilyn yr oedfa, mwynhawyd paned a phice ar y maen gyda phawb yn eistedd yn eu seddau i'w derbyn. Paratowyd y lluniaeth gan Alison Parsons ac mae'n diolch i Rhian Mair Evans am gyflwyno'r pice ar y maen yn rhodd. Bu Catrin Heledd Jones a Meleri Llwyd O'Leary a'n Gweinidog yn cynorthwyo gyda'r gweini. Bu'n noson hyfryd ac yn oedfa hynod o fendithiol.



**COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG
CYRSIAU'R HYDREF**

GWEINIDOGAETHAU YM MYWYD YR EGLWYS

**Nos Fawrth 9 Tachwedd 2021
Gweinidogaeth Galar a Chynnal Angladdau
Aled Jones
Cyfarwyddwr a Chydlynnydd Hyfforddi'r Coleg**

**DARLLEN, DEALL A DEHONGLI GAIR DUW HEDDIW
ASTUDIO'RT BEIBL YN EIN CYD-DESTUN NI**

**Nos Lun 8 Tachwedd 2021
Yr Her Amgylcheddol
Hefin Jones
Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd**

**Nos Lun 15 Tachwedd
Testament Newydd y Beibl
Catrin Haf Williams
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, PCYDDS**

**Nos Lun 22 Tachwedd 2021
Y Beibl Hebraeg
John Owain ab Ifor Jones
Eglwys Unedig Bute, Eglwys yr Alban**

**Croeso cynnes i bawb
Bydd pob cwrs ar lein ac yn dechrau am 7 yr hwyr**

**Manylion pellach a dolenni zoom
oddi wrth
aled@colegyrannibynwyr.cymru**

ARLOESI AR LEIN

MAE’N gyfnod cyffrous yn hanes y Priordy!!

Lansiwyd ein prosiect newydd– Arloesi ar Lein - ar Sul cyntaf mis Hydref. Paratowyd fideo deniadol ar gyfer y lansiog gan Iestyn O’Leary, un o blant yr eglwys sy’n fyfyrwr ym Mhrifysgol Salford, Manceinion.



Buom yn llwyddiannus yn ein cais am nawdd am gyfnod o bum mlynedd o Gronfa Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i’n galluogi i ymestyn ein tystiolaeth a’n cenhadaeth ymhellach drwy wneud defnydd arloesol a chynyddol o dechnoleg a chyfryngau digidol newydd. Byddwn fel eglwys yn parhau i gwrdd ac addoli wyneb-yn-wyneb, ond mae profiadau diweddar wedi’n hargyhoeddi fod angen i ni ymdrechu i ddal ati i gynnal ein darpariaeth ddigidol yr un pryd.

Ein gobaith yw parhau i ddarparu gwasanaethau a rhaglenni digidol anturus sy’n llawn bywyd a lliw ar gyfer oedolion a’r to iau, ond ein bod bellach yn gallu gofyn i arbenigwyr technolegol am help llaw i’w paratoi.

Cofiwch droi’n rheolaidd at Sianel Youtube ‘Gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin’ ynghyd â’n tudalen Gweplyfr ‘Capel Y Priordy’ a’n cyfrif Trydar @CapelYPriordy i wyllo’r ddarpariaeth. Gobeithio’n fawr y gwelwch ei bod yn un sy’n llawn bendith a mwynhad.

Dyma i chi flas o’r mathau o brofiadau sydd ar gael ar hyn o bryd

...

- Oedfa Ddigidol bob bore Sul ar ei newydd wedd
- Cyfres newydd – Am funud...

- Ffilmiau byrion o weithgareddau'r eglwys e.e. yr Ysgol Sul a Bore Coffi Macmillan
- Trosglwyddo'r oedfa ddigidol i Radio Glangwili

Rydym hefyd bob amser yn barod i dderbyn unrhyw syniadau newydd neu awgrymiadau / sylwadau. Bydd ein Gweinidog yn falch iawn i'w cael.

HWYL gyda'r gwyllo!!

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

SULWYN A GLENYS THOMAS

Rhodfa Mostyn

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

DYMA'R UNDEB

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Rhifyn 56 Hydref 2021

Eglwysi Cymru a Cop 26

Ar gael yn awr



GAIR O DDIOLCH

**Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd hynod o hael a dderbyniwyd gan y Priorddy drwy ewylllys y diweddar Victor Jones (gynt o Erw Hir).
Gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn.**

**AR Y WE: www.priorddy.org
(yn cynnwys Papur Priorddy)**

Y BOBL IFAINC A GYMERODD RAN YN OEDFA PIP



OEDFA YNG NGOFAL PIP (POBL IFAINC Y PRIORDY)
Dydd Sul, 31 Hydref 2021

Go brin y gellid meddwl am thema fwy perthnasol na 'Newid Hinsawdd' ar gyfer ein hoedfa foreol amlgyfrwng ar drothwy Gynhadledd COP 26 yn Glasgow. A pha well na chael pobl ifainc i'w harwain?!



Mae dyfodol ein daear, creadigaeth Duw, yn gonsŷrn mawr i bawb ond yn enwedig i'n pobl ifainc, cenhedlaeth y dyfodol

Diolch i aelodau PIP yn yr oedfa hon am ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb i warchod ein hamgylchedd sy'n ymrwymiad sylfaenol i'r Efengyl.

Clywsom am ryfeddod a mawredd y byd a'r ffordd y mae Duw'n ein cynnal ond hefyd fel mae'r blaned yn newid o ganlyniad i newid hinsawdd. Byddai'r ddaear heb haen o nwyon tŷ gwydr yn dioddef tymheredd eithriadol o boeth ac oer ac yn lle anodd i fyw ynddo. Ond rydym yn llosgi gormod ohonynt erbyn hyn a hynny'n arwain at gynhesu byd-eang gormodol. A phobl dlota'r byd sy'n dioddef waethaf gan eu bod yn byw mewn ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef sychder, stormydd a llifogydd ac nid oes ganddyn nhw'r modd i amddiffyn eu hunain.

Gwelsom yn glir drwy ffilm fer ond trawiadol y niwed sy'n digwydd i'n hamgylchedd o ganlyniad i dymheredd y byd yn codi, er enghraifft tywydd eithafol yn arwain at lifogydd distryw ac ati.



Onid oedfa heb obaith oedd hon o gwbl. Mynegodd ein pobl ifainc eu gobaith y bydd y gynhadledd ryngwladol hollbwysig a thyngedfennol COP 26 yn Glasgow - y cyfarfod mwyaf o arweinwyr y byd yn hanes y Deyrnas Unedig - yn dangos y ffordd ymlaen yn glir i ddyfodol y blaned ac y byddai gweithredu ar hynny. Meddai datganiad ein pobl ifainc:

Rydyn ni, bobl ifainc Capel y Priordy, yn galw ar ein gwleidyddion ac arweinwyr ein cenhedloedd a fydd yn cwrdd yn Glasgow yr wythnos hon i amlinellu yn glir eu cynlluniau ar gyfer dyfodol

mwy gwyrdd ac i weithredu arnynt. Wrth anfon ei fab Iesu i waredu'r byd fe ddangosodd Duw bod bob amser obaith am iachad. Ond i wireddu'r gobaith hwnnw, mae'n rhaid i ni fel unigolion ac eglwys ac fel dinasyddion byd y mae Duw yn ei garu wneud safiad yn erbyn y drychineb fyd-eang bosib hon.

Diolch hefyd i'n pobl ifainc am ddangos sut y gall pob un ohonom, yn arweinyddion ai peidio, wneud ein rhan yn ymarferol drwy'n ffordd o fyw i achub creadigaeth Duw. *'Gwna dy Eglwys yn goelcerth gobaith'* oedd ple'r weddi wrth gloi'r oedfa.



Mae'n dyled yn fawr i PIP – i Syfi, Jac, Erin, Betsan, Carina, Jona, Gareth, Elaine, Siwan a Gwenan am eu gwaith hynod o raenus yn cyflwyno'r emynau, y darlleniadau a'r gweddiâu ynghyd â'r neges ac i Gwenllian am ei datganiad hyfryd ar y ffidil. Roedd Dr Angharad Wyn wrth yr organ a'r cyhoeddwr oedd y Dr Huw Michael. Diolch yn arbennig i'n Gweinidog am y paratoi trylwyr.

STORI'R PLANT

Un o rannau mwyaf pwysig ein hoedfaon o Sul i Sul yw'r stori a gyflwynir i'r plant cyn iddynt fynd i'r Ysgol Sul.




A hithau'n Galan Gaeaf, cafwyd stori hynod o berthnasol iddynt i gydfynd â hyn. Trwy ddefnyddio pwmpen (Patch a'i Rienii!) mewn ffordd ddychmygus dangosodd ein Gweinidog sut y gallwn drwy Grist gael wyneb newydd a gadael i'w oleuni ddisgleirio drwom. A dathlu goleuni yn hytrach na thywyllwch y mae Calan Gaeaf.



Hyderwn hefyd y bydd y goleuni hwnnw wedi cyffwrdd â chalonnau arweinyddion y byd yng Nghynhadledd COP 26 yn Glasgow.



APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR



Byddwn yn cefnogi'r un apêl eto'r Nadolig hwn ac yn casglu

POB DYDD SUL YM MIS TACHWEDD 2021

Croeso i chi ddod â'ch anrhegion i'r capel

Pa fath o anrhegion ydyn ni'n chwilio amdanynt?

Anrhegion ar gyfer pob oedran; o fabanod i fyny at bobl ifanc yn eu harddegau.

Byddem yn ddiolchgar **pe baech chi ddim** yn lapio'r anrhegion gan y byddant yn cael eu dosbarthu gan y tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â'r teuluoedd.

A wnewch chi sicrhau bod y teganau yn rhai newydd os gwelwch yn dda - a heb eu lapio.



Awgrym o bris - £5 yr anrheg

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth



**CARTREF PLAS Y DDERWEN
GWASANAETH NADOLIG**

gyda'n Gweinidog

Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 am 2.00pm

Croeso cynnes i bawb

**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**





NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

**Adeg Diolchgarwch bob blwyddyn,
rhoddir bocs Pringles i blant / pobl
ifanc y capel gasglu arian at elusen.**

Eleni, casglwyd arian i helpu



Urdd

**teuluoedd o
Affganistan sydd
wedi gorfod ffoi o'u
gwlad ac wedi dod i
Gymru. Rydym yn
cefnogi ymgyrch yr Urdd i godi arian er mwyn
trefnu teithiau i'r teuluoedd hyn.**



**Fore Sadwrn, cyn Sul Diolchgarwch,
derbyniwyd rhoddion y plant a'r bobl
ifanc a'u gosod ar fwrdd y Cymun.**



**Roedd y plant hefyd wedi
paratoi fideo ymlaen llaw i
ddangos y gwaith maen nhw
wedi bod yn ei wneud yn yr
Ysgol Sul sy'n dal i gael ei chynnal ar Zoom.**

**Dosbarthwyd y rhoddion hyn i nifer o aelodau'r capel wedi'r
Sul.**

Mae'n siŵr bod amryw ohonoch wedi bod yn gwylio Noson Lawen Sir Gâr ar S4C yn ddiweddar a chlywed cerdd hwyliog Tudur Dylan Jones. Diolch i Dylan am ganiatâd i'w chyhoeddi yn ein Papur y mis hwn fel y gallwn ei hailfwynhau!



Mae na rai yn gallu honni eu bod nhw'n bedigrŷ
Ond waeth i fi gyfadde mai mwngrel ydw i.

Dwi'n hanner o Sir Ddinbych a hanner o Sir Gâr,
A dipyn bach o Fangor os oes na ddarn yn sbâr.

Ond er mai'n Sir Gaerfyrddin dwi di byw ers amser maith
Dwi ddim 'di meistrolï'r acen na'r ffordd o siarad chwaith.

Yn lle dweud 'fe' am rywun, dwi'n dal i yngan 'fo'
A dydw i rioed di mentro dweud shgwl a glei a sbo.

Mae cofio 'nyddiad geni bob tro yn hawdd, neu'n rhwydd
Roedd hynny yng Nghaerfyrddin... ar ddiwrnod fy mhenblwydd.

Dwi'm yn cofio'r peth yn union, am fy mod i'n dipyn iau,
Ond digwyddodd mewn ysbyty ac mae hwnnw wedi cau.

Mae o'n fflatiau henoed bellach ar y ffordd i mewn i'r dre,
Ces fy ngeni, a bydda i farw mae'n bosib yn 'run lle.

O ran fy acen innau dwi fel sgodyn 'di mynd trwy'r rhwyd,
Gan fo nhad ag acen Sirgar, a mam ag acen Clwyd.

Dwi di trio 'fo'r Ddyfedeg, yn lle dweud dau, dweud dou
Dweud bennu yn lle gorffen, ac yn lle cyflym, clou.

Mi dwi'n dweud 'hollol wirion', a rhai yn dweud 'dwl post',
Cur sgin innau yn fy mhen, ond mae gan rai 'ben tost'.

Mae rhai'n Sir Gâr yn deud 'sdim ots', ond dwinna'n deud 'dio'm otsh'
Dwi yn byta tatws stwnsh, ac eraill tato potsh.

Mae rhai'n defnyddio'r gair jeriw am le chwech neu am dŷ bach,
Ac i eraill mae'n swnio braidd yn od mai cwdyn ydy sach.

Ond hwn di'r arfer gwaetha, mi glywais i ryw si
Fod na rai o feirdd Caerfyrddin yn odli 'u' ac 'i'.

Mae rhai yn meddwl mai nhw sy'n iawn ac yn gwbod be di be
Ac naill ai'n ffafrio'r gogledd, neu fel arall yn ffafrio'r de.

Ond o ddifri lle bynnag ewch chi yng Nghymru ar eich
taith,
Yr un bob tro di'r bobol, a'r un di'r wlad a'r iaith.

Ac ar ôl dwys ystryried, gewch chi gadw'ch pedigri
Dwi'n hapus i gyfadde mai mwngrel ydw i!



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

**Nos Fercher 10 Tachwedd 2021 am 7
Yn y Capel**

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda*

Dydd Gweddi'r Byd

**Cynhelir cyfarfod ar ddydd Mercher,
24 Tachwedd 2021 o 10 tan 12 dros Zoom i
baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2022. Mwy o
fanylion i ddod.**



**BLWYDDIADUR UNDEB YR ANNIBYNWYR
CYMRAEG 2022**

**yn cynnwys
Dyddiadur, Darlleniadur, Suliadur a Llawlyfr
Pris £10
Cyswllt: Sulwyn Thomas**

Eglwysi'r Dyfodol

Mae cyfle gyda Covid-19 i ystyried a chofio ac wedyn ailystyried, a dyma fi'n gwneud.



Un o'r digwyddiadau ddaeth yn ôl i'r cof oedd mynd i gapel flynyddoedd yn ôl, a sylwi fod y gynulleidfa yn fechan a llawer o seddau gwag, a dweud wrth un o'r blaenoriaid: *'Mae'r debyg eich bod wedi colli nifer o deuluoedd oedd yn arfer â dod yma flynyddoedd yn ôl.'* Atebodd, *'Na, yr un nifer o deuluoedd sydd yma heno ag oedd pan sefydlwyd yr achos, ond roedd gan bron bob teulu ddeg neu bymtheg o blant. Heddiw, dau neu dri phlentyn sydd gan y rhan fwyaf ac nid oes un fferm yn y gymdogaeth a morynion a gweision fel cynt.'*

Pan oeddwn yn ifanc daeth cryn sylw fod y diweddar Dug Caeredin, priod y Frenhines, wedi canmol Tsieina am orfodi teuluoedd i gael dim mwy na dau o blant! Cofiaf am un cymeriad o Fangor yn llythyru yn y Wasg ac yn ddeifiol feirniadol o'r Dug. Popeth yn iawn i Tsieina, yr Unol Daleithiau a Lloegr i fagu llai o blant ond nid cenhedloedd bychain eu rhif fel Cymru!

Efallai fod angen i ni beidio â rhuthro i sôn am bobl yn troi cefn ar grefydd, oherwydd gall diboblogi cefn gwlad, Saeson cefnog yn prynu ail gartrefi fod yn rhannol gyfrifol am y pryder am ddyfodol crefydd cyfundrefnol. Mae cael y ffeithiau'n gywir yn bwysig. Gall sefyllfa fod yn wahanol o ardal i ardal ac o eglwys i eglwys. Oherwydd llai o arian mae llawer capel yn gorfod ailystyried gadael adeilad a chynnal gwasanaethau yn neuadd y pentref neu ryw adeilad cyfleus arall.

Mae pob enwad yn gorfod datrys ei iachawdwriaeth ei hun. Mae enwad fel yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru yn cau rhai eglwysi gan nad ydynt yn werth eu cadw yn eu tŷb hwy. Mae'r Presbyteriaid yn penderfynu'n ganalog ba gapel fydd yn cau. Ni all neb ond y gynulleidfa leol benderfynu dyfodol capeli presennol yr Annibynwyr.

Beth yw sefyllfa eglwysi ein henwad ni? Goddefwch i mi awgrymu rhai materion sylfaenol i gyhwyn:

- 1) Mae 363 o eglwysi'n perthyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Rhif aelodaeth yr enwad yw 16,627. Nifer y plant a phobl ifanc sydd ddim eto yn aelodau cyflawn, 1,937.
- 2) Mae nifer o eglwysi sydd â llai na 12 aelod i bob capel. 50 o gapeli sydd â deuddeg neu lai o aelodau. Bydd nifer o'r rhain yn dewis cau o'u gwirfodd. Gall eraill benderfynu gwerthu'r capel a buddsoddi'r arian gan symud fel cynulleidfa i neuadd bentref neu westy cyfleus neun hyd oed dŷ croesawgar.
- 3) Mae'n gyfle i ddechrau cenhadu mewn gwahanol ffyrdd i greu cymdeithas o Gristnogion croesawus heb ei llethu gan ofynion ariannol nad oes obaith i griw bach eu cyflawni.

Os yw'r enwad yn penderfynu cenhadu'n genedlaethol, yna mae cael cysylltiad agos gyda'r aelodau sydd yn adnabod eu hardal a'u cymodogion yn fudd hanfodol. Pe gallem gael map o Gymru yn nodi pob capel a lle o addoliad Cymraeg eu hiaith, yna byddai ardaloedd heb enwad Cymraeg yn dod i'r amlwg. Dylid meddwl am genhadu nid yn unig drwy ddenu aelodau newydd i'r capeli sydd mewn bodolaeth, ond meddwl hefyd yn nhermau sefydlu eglwysi newydd – sef cynulleidfa'n cydaddoli ac nid codi capeli newydd. Daw cyfle i sefydlu Ysgolion Sul yn yr ardaloedd hyn o'r newydd.

Cofier y bydd ardaloedd heb enwadau Cymraeg yn aml gyda theuluoedd Cymraeg eu hiaith un ai wedi symud i fyw yno, neu rieni sydd am i'w plant ddysgu Cymraeg. Un syniad fyddai sefydlu eglwysi anenwadol, nid eglwysi cydenwadol! Mae cydenwadol yn golygu cynnwys enwadau a allai ymyrryd â dymuniadau'r gynulleidfa leol a phery rhwyg.




Felly nid sefydlu eglwysi newydd o Annibynwyr yw'r nod ond rhai anenwadol, gan adael iddynt hwy ofyn am gymorth neu gyngor, neu arweiniad pellach os ydynt yn dymuno. Mae'r sefyllfa bresennol yn gyfle i genhadu mewn dulliau gwahanol.

Un syniad i eglwysi sydd yn barod i ddefnyddio'u capeli yw iddynt sefydlu grwpiau i drafod hanes lleol i bobl ddiarth i'r fro yn Saesneg, neu hefyd yn Gymraeg os oes digon o Gymry yn yr ardal sydd ddim yn mynychu lle o addoliad. Wedyn sefydlu dosbarth dysgu Cymraeg gyda gwahoddiad i ymuno mewn gwasanaeth Cymraeg. Dylid bod yn barod i arbrofi ac addasu yn ôl y profiad lleol.

Dylid croesawu pob syniad neu gynllun newydd, ond cofier bob amser fod dechrauadau Cristnogaeth wedi digwydd yn syml yng nghartrefi'r Cristnogion cynnar. Cofier hefyd y syndod fod deuddeg ac efallai lai, yn gallu creu cyfnod newydd bywiol!

COFIWCH

COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS



Yr Anrheg Nadolig Perffaith!!

Y TYST

50c y rhifyn!

Archebwch ar gyfer 2022!

Cysyllter â Sulwyn Thomas



YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



LLONGYFARCHIADAU MAWR



Cyflwynwyd cyfarchion a rhodd i Mrs Irene Williams ar ddydd ei phen-blwydd yn 100 oed gan ein Gweinidog ar ein rhan ni oll

Ifanc @Priordy.

Helo bawb

Gobeithio eich bod chi i gyd yn
cadw'n iach a diogel!



Diolch!

Diolch i bawb ohonoch am
eich rhoddion i'r banc bwyd.
Ardderchog!



Trefniadau ein gwasanaethau Nadolig

Rydym wedi gorfod addasu ein trefniadau er mwyn
cadw pawb yn ddiogel!



Gwasanaeth Nadolig PIP
dan olau kannwyll
Nos Sul 5 Rhagfyr am 5 o'r
gloch



Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul
Prynhawn Sul 12 Rhagfyr am 3 o'r gloch



Suliau Tachwedd
Paratoi crefftau yn yr Ysgol Sul
ar gyfer yr oedfaon Nadolig



Byddwn yn cadw mewn cyswllt cyson â chi dros y we
gydag unrhyw drefniadau pellach!

Chwilair Newid Hinsawdd

G L A S G O W L M W L H W R S
Q Q J H C L U N U N S E C B U
G S F K I O L B Z Z R D C O F
L W X N K N R I G W E D D I O
A J T K A Z S W F S E K G H M
W S B X D L A A Y O M M B C I
B Y D E A N G U W N G I Q O N
U T Y M H E R E D D T Y R D N
R U T Z Y M S H M A D O D I E
P S Y C H D E R C O C V E D W
N D A E A R P V O P R C U D I
I N V G D G B A P O A J R T D
A Q J L C Y N H E S U M E T U
V C L L Y W O D R A E T H A U
D P P T R A F O D A E T H A U

llywodraethau

trafodaethau

corwyntoedd

tymheredd

cynhesu

gweddio

bydeang

glasgow

hinsawdd

llifogydd

daear

sychder

mor

newid

glaw

codi

cop

*Cofiwch ein dilyn ar Facebook a Twitter,
a'n gwe-fan www.priordy.org*

Hwyl tan tro nesaf, Beti-Wyn

CINIO SUL YR OFALAETH YNG NGWESTY'R LLWYN IORWG



T



Pa mor dda ydych chi'n'nabod eich emynau? Mae'n Fis
Tachwedd ac mae pob gair sy'n eisiau yn yr her isod yn
dechrau gyda T.




Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!

1	--- d'Ysbyd heddiw awn	T
2	Cariad --- yn Un	T
3	Gogoniant -----i'th enw, fy Nuw	T
4	-----, Arglwydd lôr, i lawr	T
5	---- yw'r wir Winydden, lôr	T
6	Iesu, -- yw ffynnon bywyd	T
7	O Arglwydd Dduw ein -----	T
8	Yn oriau ----- ein hamheuon blin	T
9	Mae ffrydiau 'ngorfoledd yn -----	T
10	O Dywysog ein -----	T

Atebion ar Dudalen 40

DIOLCHGARWCH PLAS Y DDERWEN



Tim Hayes...

Wythnos Fioleg a Bake Off Biolegol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin



Mae wythnos gyntaf mis Hydref bob amser yn gyfnod o gyffro yn yr Adran Wyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Gymraeg

Bro Myrddin. Mae'r Adran Fioleg yn trefnu sawl digwyddiad i godi ymwybyddiaeth a diddordeb mewn amryw faes wrth i'r Royal Society of Biology gynnal ei Wythnos Fioleg flynyddol.



Yn ogystal â'r cwis arferol a'r Bingo Biolegol cafwyd origami firsol – a brofodd yn ben tost i'r mwyafrif! Braint arbennig eleni oedd cael gwahodd **Emma Bolam** o'r Jenner Institute yn Rhydychen i gynnal sesiwn Cwestiwn



ac Ateb gyda disgyblion Lefel A Bioleg drwy TEAMS. Emma yw arweinydd y tîm wnaeth ddatblygu'r brechlyn llwyddiannus cyntaf yn y DU yn erbyn Covid-19. Mae Emma yn gyn-ddisgybl o YGGBM.



Rhannwyd y sesiwn gyda **Lynne Edwards** oedd yn yr un dosbarth Bioleg ym Mro Myrddin nôl ym 1989! Bellach mae Lynne yn gydlynnydd brechlynau Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a'r ddwy felly'n gweithio ar naill ochr y sbectrwm iechyd i gadw ein trigolion yn ddiogel – y naill wedi

creu'r brechlyn a'r llall yn sicrhau ei fod yn cyrraedd breichiau trigolion Sir Gâr.

Uchafbwynt blynyddol ar y dydd Gwener yw'r Bake Off Biolegol. Eleni cyflwynwyd dros 35 o sbesimenau biolegol amrywiol trwy gyfrwng

cupcakes,
sbwnjys, bisgedi
a hyd yn oed torth
o fara ar ffurf
crocodeil! Un
ymgais drawiadol
oedd troed
torredig a
gyflwynwyd
ynghyd â'i
ewinedd
bwytdwy! Roedd
Covid wedi
ysbrydoli sawl
cais yn ogystal ag
amryw gelloedd, brogaod a blodau! Diolch i bawb am gystadlu a
gobeithio eu bod mor flasus ag yr oeddent yn edrych!



DYSGU IAITH ARWYDDION GYDA BRIALLT WYN YN YR YSGOL SUL



JOHN OWEN (OWAIN ALAW)
1821- 1883

RYDYN ni i gyd yn falch iawn o'n hanthem genedlaethol *Hen Wlad Fy Nhadau*. Ysgrifennwyd y geiriau gan Evan James (1809-1878), a chyfansoddwyd y dôn gan ei fab James James (1833-1902) ym mis Ionawr 1856



– y ddau'n hannu o Bontypridd. Mae'r anthem yn adnabyddus drwy'r byd i gyd ac ychwanegwyd at ei phoblogrwydd yn sylweddol gan lwyddiant Timau Rygbi Cenedlaethol Cymru dros y blynyddoedd a Thîm Pêl-droed Cenedlaethol Cymru yn yr Ewros yn 2016. Ond i ŵr o'r enw John Owen, neu Owain Alaw, y mae llawer

o'r diolch am i'r gân dyfu mewn poblogrwydd yn y lle cyntaf!

Ganed Owain Alaw ar 14 Tachwedd 1821, ddau gan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, yn Crane Street, Caer ond yn Llanfachraeth ar Ynys Môn roedd gwreiddiau'i rieni. Wedi cwblhau ei addysg cafodd ei brentisio i gwmni gwneud cyllyll yng Nghaer, ond ym 1844 ymddiswyddodd er mwyn neilltuo'i holl amser i gerddoriaeth. Roedd wedi priodi ddwy flynedd yn gynharach.



Roedd yn ganwr, yn gyfeilydd ac yn gyfansoddwr ac enillodd laweroedd o wobrau mewn eisteddfodau. Roedd galw mawr amdano i feirniadu a byddai'n perfformio mewn cyngherddau gyda **John Jones** (Talhaiaran) (1810-1869) a ysgrifennodd eiriau i rai o'i gyfansoddiadau. Mae'n debyg, yn ôl *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Lolfa 2018) mai fe oedd 'cerddor Cymreig mwyaf blaengr ac amryddawn y 19 ganrif'

A throi'n ôl at ein hanthem genedlaethol, nid *Hen Wlad fy Nhadau*

oedd enw gwreiddiol y darn ond yn hytrach *Glan Rhondda* gan y dywedir i James James gyfansoddi'r dôn un bore Sul wrth gerdded ger glannau afon Rhondda ym Mhontypridd.

Perfformiwyd y gân am y tro cyntaf yn festri Capel Tabor, Maesteg ym Ionawr neu Chwefror 1856, gan gantores leol. Tyfodd yn boblogaidd drwy'r ardal a dod yn fwy adnabyddus yn



Eisteddfod Llangollen 1858 ar ôl i **Llewelyn Alaw (Thomas David Llewelyn 1828-79)**,

Aberdâr, ddod yn fuddugol mewn cystadleuaeth yn gofyn am gasgliad o alawon Cymreig oedd heb eu cyhoeddi.

Mae'n amlwg i *Glan Rhondda* a oedd yn rhan o gasgliad Llewelyn Alaw (ond heb gynnwys enwau'r cyfansoddwyr) greu argraff ar Owain Alaw, beirniad y gystadleuaeth, Cynhwysodd y geiriau a'r alaw (heb gyfeirio at y cyfansoddwyr) yn ei gasgliad cyntaf o *Gems of Welsh*

Melody a gyhoeddwyd gan Isaac Clarke yn Rhuthun yn 1860, Fe roddodd y teitl mwy adnabyddus, *Hen Wlad fy Nhadau* iddi a

threfnodd yr alaw hefyd ar gyfer pedwar llais.

Yn unawdydd o fri, byddai Owain Alaw'n canu'r alaw mewn cyngherddau yng Ngogledd Cymru ac mewn deuawd gyda Talhaiarn mewn nosweithiau cerddorol dan yr enw *Noson gyda Tal ac Alaw*. Ychwanegodd hynny ymhellach at boblogrwydd y gân.



Does dim sicrwydd pa bryd y

mabwysiadwyd y gân fel anthem

genedlaethol. Dywed *Cydymaith i*

Lenyddiaeth Cymru i'r dôn gael cryn amlygrwydd yn ystod Eisteddfod

Genedlaethol Bangor ym 1874 pan ganwyd hi gan **Robert Rees** (Eos Morlais). O hynny ymlaen cafodd ei hystyried fel y gân a fynegai




orau'r ymdeimlad o genedlaetholrwydd Cymreig. Erbyn hyn fe'i hystyrir yn anthem genedlaethol swyddogol Cymru ac fe'i cenir mewn amryw o ddigwyddiadau cyhoeddus.

Penodwyd Owain Alaw pan oedd yn ŵr ifanc yn organydd yng Nghapel yr Octagon yng Nghaer. Wedi hynny, bu'n organydd yn Eglwys Sant Pawl, Brychdyn, Wrecsam ac Eglwys St Bride yng Nghaer cyn dal swydd debyg yn ddiweddarach yn Eglwys Gymraeg y Santes Fair, Caer, ble y bu hefyd yn gôr-feistr, ac yn ysgrifennydd hyd ddiwedd ei oes. Chwaraeodd ran bwysig yn lledaenu poblogrwydd *Hen Wlad fy Nhadau* sy'n cael ei chyfrif yn un o'r anthemau cenedlaethol gorau. Ond beth am y cof am Owain Alaw yng Nghymru? Wel, mae *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* yn dweud bod Caradog Roberts yn honni'i fod wedi'i anwybyddu gan bobl Cymru oherwydd nad oedd ynghlwm wrth unrhyw un o enwadau Anghydfurfiol mawr y wlad a'i bod yn anffodus mai organydd yn Eglwys Loegr ydoedd!



BU FARW Owain Alaw 29 Ionawr 1883 a'i gladdu yn Hen Fynwent Overleigh yng Nghaer.



PANTYCELYN A'N PICIL NI HEDDIW Cynog Dafis

Y Lolfa – Hydref 2021 - £4.99

Fformat – E lyfr

Ar gael yn uniongyrchol gan y cyhoeddwr
drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<https://www.ffolio.cymru/97818009916>



CADWCH YN DIOGEL

**PIP YN CREU MURLUN GYDA RHYS PADARN,
CYFLWYNYDD MENTER ORIELODL.COM**



PIP A'R MURLUN TERFNOL



Tudalen Blaen

Rheswm Jill Edwards dros ddewis 'Clyw ni, fwyn Waredwr....',

MAE dewis rhan o emyn sydd yn bwysig i mi wedi bod yn anodd iawn, oherwydd roedd fy nhad, **Elwyn Thomas**, yn arweinydd y gân am gyfnod hir yn y Capel ac mae nifer fawr o emynau yn fy atgoffa i ohono. Dw i ddim yn siŵr fel byddai e wedi ymdopi â methu canu yn y capel dros gyfnod cynnar Covid.



Bob tro y byddaf yn meddwl am fy nhad, rwy'n cofio am yr amseroedd hapus o ymweld ag eisteddfodau yn ei gwmni. Roeddwn i'n llawer mwy nerfus nag e wrth wrando arno'n cystadlu ar lwyfannau mawr Eisteddfodau Llanbedr Pont Steffan, Pontrhydfendigaid, Aberteifi a'r Genedlaethol yn ystod y saithdegau a'r wythdegau. Canu Emyn oedd y gystadleuaeth bennaf, a "*Clyw ni, fwyn Waredwr*", oedd un oi hoff emynau. Mi wnes i ddarganfod beirniadaeth Eisteddfod Aberteifi ym 1986 yn ddiweddar pan fuodd yn ffodus i ennill y wobwr gyntaf yn canu'r emyn.

Nôl yn mis Chwefror 1993 (Rhifyn 32) ymddangosodd sgwrs rhwng y diweddar Arwyn Davies a 'nhad yn **Papur Priordy**. Dyma'r cwestiwn olaf:

"I ORFFEN, te, Elwyn, fel un sy wedi canu ugeinie o emyne mewn capel, neuadd a phafiliwn, p'un yw eich hoff emyn?"

"Ga i enwi tri - "*Cof am y cyfiawn Iesu*" (384), "*Dy garu di, o Dduw*" (630) a "*Clyw ni, fwyn Waredwr*" (143 - *Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul*)"

Awdur 'Clyw ni, fwyn Waredwr

Y Parchedig David Adams (Hawen) 1845-1922



Ganed yn Nhal-y-bont, Ceredigion. Bu'n gweithio yn y gweithiau mwyn cyn dod yn ysgolfeistr ac yna'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Hawen a Bryngwenith, Bethesda yng Ngwynedd a Lerpwl. Yng Nghymru fe oedd prif ladmerydd y mudiad diwinyddol newydd a gychwynnodd yn yr Almaen. Etholwyd yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr ym 1913. Awduron ei gofiant yw E Keri Evans, un o gyn-weinidogion y Priordy, a W Pari Huws.

Mae dau emyn gan Hawen yn *Caneuon Ffydd*, sef *Engyl glân o fro'r gogoniant* (447) a *Boed mawl i Dduw gan engyl nef* (491) – cyfieithiad o emyn J H Newman (*Praise to the Holiest in the height*) sydd wedi'i ddiwygio ar gyfer *Caneuon Ffydd* gan Siôn Aled.

A dyma'r emyn cyflawn o waith Hawen a ddewiswyd gan Jill fel y mae yn **Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul**:

**Clyw ni, fwyn Waredwr,
Tyner iawn wyt Ti;
Plant diniwed gedwi -
Clyw ein gweddi ni:
Mor annheilwng ydym
I Dy ŵydd i ddod;
Ond ar Dy wahoddiad
Rhoddwn i Ti glod.**

**Wedi maddeu inni,
Cadw ni rhag bai;
Dyro ras i'th garu -
Gras i ufuddhau:
Fyth na huded pechod
Ni, o'th lwybrau rhydd:
Arwain ni â'th wenau
Fry, i wlad y dydd!**

**O! clyw ni, fwyn Waredwr,
Tyner iawn wyt Ti;
Plant diniwed gedwi -
Clyw ein gweddi ni.
Clyw! O clyw! Iesu! clyw!**

RHAGOR O HWYL YN YR YSGOL SUL!



Dylanwad y Gweinidog

Rwy'n dal i gysylltu o hyd â Mrs Mair Thomas, sy'n 103 oed, ac yn byw ym Mangor. Yn ddiweddar, fe wnes i ei hatgoffa am sut yr oedd hi a'i gŵr Y Parchedig Michael L Thomas, wedi dylanwadu'n grefyddol ac yn gymdeithasol ar genhedlaeth o blant a phobl ifanc Capel Methodistiaid Calfinaidd Clos-y-graig ym mhentref Drefelin ger Dre-fach, Felindre.



Bu'r Parchedig J H Davies, brodor o Ynysforgan Cwm Tawe, yn weinidog ar Gapel Clos-y-graig o 1932 tan 1947, a'i weinidogaeth a'i bregethau hir yn ddwfn yn nhraddodiadau crefyddol cul a ffurfiol y cyfnod.



Yna, ym Medi 1948 fe ddaeth **y Parchedig Michael L Thomas**, o Lanberis yn wreiddiol, yn weinidog ifanc ar y capel, a bu ei ddylanwad, trwy ei ddulliau cyfoes ar yr eglwys a'r ardal yn enfawr. Fy lwc a'm braint innau oedd cael treulio cyfnod fy ieuentid o dan ei weinidogaeth a bod yn rhan o'r bwrlwm newydd hwnnw mewn perthynas â'r capel.

Cyflwynodd y Parchedig M L Thomas wasanaethau ffres a phregethau o ryw ugain munud i ni. Trefnodd wasanaethau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a phawb yn cymryd rhan yn eu tro. Sefydlodd Gymdeithas Ddiwylliadol gyda phwyslais ar ieuentid y capel gan drefnu ymweliadau â chapeli eraill ac amryw o fannau hanesyddol. Yn grwt pymtheg oed trefnodd i fi wneud rhai diolchiadau ar ddiwedd cyfarfodydd. Dewiswyd rhai ohonon ni yn gadeiryddion neu yn ysgrifenyddion ein Cymdeithas Ddiwylliadol.

Arferai trip Ysgol Sul blynyddol y capel fynd i'r Barri neu Borthcawl neu Ddinbych-y-pysgod ond fe drefnodd y gweinidog newydd drip i'r bobl ifanc yn unig i'r Rhyll! Gan nad oedd neb ohonon wedi bod ymhellach nag Aberystwyth roedd cael teithio i'r Rhyll a'r *Marine Lake* enwog yn gyfle am y tro cyntaf erioed i fois a merched Clos-y-graig weld rhyfeddodau'r gogledd!

Yna, aeth ati i drefnu Cwmni Drama'r Capel i berfformio'r 'Ditectif,' sef drama o waith Y Parch Gwynedd Jones, gweinidog ym Mhencader ar y pryd. Perfformiwyd hi yn Festri Clos-y-graig ac mewn festrïoedd eraill o gwmpas y wlad.

Sefydlodd **Mair Thomas** Barti Cydadrodd Merched a'i gŵr, y gweinidog, yn ei hyfforddi ar gyfer cystadlu mewn eisteddfodau a rhoi cyflwyniadau mewn digwyddiadau lleol.



Aeth y gweinidog ati wedyn i hyfforddi rhai o'r plant i adrodd yn unigol ac fe gafwyd cryn lwyddiant. Ymhlith y goreuon roedd y ddwy chwaer Anne a Norma Winston – y ddwy maes o law yn enillwyr cenedlaethol gydag Anne (Pash wedyn) yn cipio'r Llwyd o'r Bryn.

Fe ddaeth noson 'Y Goeden Nadolig' yn y festri i'r plant a'r bobl ifanc a'r oedolion yn boblogaidd iawn a chafwyd ambell *Social Tea* ar brynhawn Sul i'r aelodau gymdeithasu. Trefnwyd i'r ieuenctid – ac unrhyw aelod arall oedd am ddod - i fynd o gwmpas tai'r ardal adeg y flwyddyn newydd yn flynyddol i ganu a chasglu arian tuag at achosion da.

Wrth ddathlu dau canmlwyddiant yr achos yn 1954 cyhoeddwyd llyfr yn rhoi braslun o hanes y capel ac fe drefnodd y gweinidog wythnos lawn o ddigwyddiadau.

Roedd y Parch M L Thomas yn genedlaetholwr brwd, a chofiaf i fi fynd gyda fe a Tom Morgan, ei ben blaenor, i gyfarfodydd ymgyrchu Jennie Eirian Davies, a hithau'n ymgeisydd Plaid Cymru am y tro cyntaf yn Etholaeth Caerfyrddin. Byddai'r ddau yn siarad yn y cyfarfodydd hynny. Y gweinidog a Tom sefydlodd Cangen Bargod Teifi o'r Blaid ac mae'n dal yn weithgar o hyd.

Fy mraint i ac eraill oedd cael bod yn rhan o'r bwrllwm hwnnw a grëodd y Parch Michael L Thomas a'i wraig Mair. Mae cenedlaeth o blant a phobl ifanc ac oedolion Capel Clos-y-graig ac ardal Dre-fach Felindre wedi bod yn hynod werthfawrogl o gyfraniad diflino'r ddau, ac mae Mair Thomas, er yn 103 oed, yn cofio – yn well na fi hyd yn oed – y dyddiau da a llawn profiadau newydd hynny.





DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Tachwedd		Rhagfyr	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Jayne Woods	Huw Jones	Dennis Jones	Huw Michael



DARLLENWYR



Tachwedd	7	Cwrdd Plant	Rhagfyr	5	Meinir Jones
	14	Emlyn Schiavone		12	Oedfa Nadolig
	21	Gareth Gravell		19	Alun Charles
	28	Alwen Owen		26	Bancyfelin



CYHOEDDWYR



Tachwedd	Elis Jones	Rhagfyr	Philip Jones
----------	------------	---------	--------------

ATEBION HER YR EMYNAU

Mae'r rhifau yn cyfeirio at Ganeuon Ffydd

1. Trwy (32); 2. Tri (38); 3. Tragwyddol (107); 4. Tyred (206);
5. Tydi (265); 6. Ti (336); 7. Tadau (613); 8. Tywyll (623);
9. Tarddu (747); 10. Tangnefedd (865)

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com?



DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Tim Hayes, Jill Edwards, Jayne Woods a
Syfi am y lluniau'r mis hwn.

Y DIWEDDAR NIGEL JENKINS

Bu farw Nigel yn dawel ar 22 Medi 2021 yng Nghartref Plas y Dderwen wedi brwydr hir a wynebodd yn ddewr iawn. Un o fechgyn Sir Benfro ydoedd, wedi ei eni yn Llandysilio. Symudodd y teulu i Fwllchyllan, rhwng Llangeitho a Thregaron, i Dre-lech ac yna i Wyddgrug. Pencader lle bu ei rieni'n cadw siop y pentref.



Ymgartrefodd Nigel yng Nghaerfyrddin a bu'n weithiwr diwyd iawn gyda nifer o fusnesau lleol yn ogystal â dysgu ei grefft fel clustogwr. Roedd pawb yn adnabod Nigel! Gŵr serchus a bonheddig a fyddai bob amser yn eich cyfarch yn wên i gyd. Roedd ei rieni, y diweddar Ned a Mary Jenkins, yn aelodau ffyddlon yng Nghana, a bu Nigel yn ofalus iawn ohonynt.

Roedd ganddo nifer fawr o ffrindiau yn y dref ac roedd yn boblogaidd iawn yn eu plith, yn enwedig ym myd y dartiau, lle roedd yn chwaraewr brwd a thalentog.

Bu Nigel yn brwydo gydag afiechyd ers sawl blwyddyn gan lwyddo i dynnu drwy driniaethau mawr fwy nag unwaith.

Bu'n bresenoldeb ffyddlon a thawel yn Y Priordy yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r ymdrech o gyrraedd y capel o Dre Ioan yn fawr iddo ar adegau.

Dathlodd ei ben-blwydd yn 70 ddechrau'r haf, tra oedd yn Ysbyty Glangwili. Roedd cyrraedd oed yr addewid yn ddim ond testun diolch iddo. Derbyniodd ofal arbennig dros fisoedd yr haf gan staff hynaws Cartref Plas Y Dderwen.

Cynhaliwyd oedfa yng Nghapel Gorffwys Login ar 6 Hydref i ddiolch am ei fywyd a'i waith. Yn dilyn yr oedfa, teithiodd yr angladd drwy'r dref, a phrofiad cofiadwy iawn oedd tystio i nifer yn oedi ac yn curo dwylo wrth i'r angladd fynd heibio - arwydd sicr o barch at un o gymeriadau poblogaidd y dref. Yn dilyn gwasanaeth yn Amlosgfa Parc Gwyn, rhoddwyd ei lwch i orwedd ym medd ei rieni ym mynwent Cana. Gwasanaethwyd gan ei weinidog.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i blant Paul, Linda a Ben, ei frawd Basil a'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd. Heddwch i'w lwch, a bydded i oleuni tragwyddol lewyrchu arno.

Ein Gweinidog



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Dan Evans. Ein cofion annwyl atoch i gyd.



Ein braint fu bod yn dyst i ddau fedydd yn ddiweddar, sef Miriam Haf, merch leuan ac Angharad a chwaer Greta ar 3 Hydref 2021 a Begw Illtyd Tomos, mab Gethin a Heledd, a brawd Myfi, Deian a'r diweddar Cai ar 10 Hydref 2021. Ein dymuniadau da i'r ddau deulu.

Bu Rebecca Hayes yn pori drwy'r papurau newydd ar **Dros Frecwast** ar **Radio Cymru**. Roedd hi hefyd yn aelod o banel a fu'n trafod nifer o faterion, gan gynnwys diogelwch aelodau seneddol ac eraill yn ein cymdeithas yn dilyn llofruddiaeth Syr David Amess, AS Gorllewin Southend, gyda'r cyflwynydd Vaughan Roderick ar **Dros Ginio** ar **BBC Radio Cymru**.

Holwyd y Dr Huw Michael gan Dylan Jones ar y rhaglen **Post Prynhawn** ar **Radio Cymru** am effeithiau'r cynnydd yn mhris nwy a thrydan. Esboniodd Huw fod uchafbris OFGEM / Llywodraeth Prydain yn gwarchod cwsmeriaid domestig (tan fis Ebrill nesaf beth bynnag), ond nid busnesau na chyflenwyr nwy a thrydan. Byddai pwysau ar y llywodraeth i helpu busnesau i'w harbed rhag cyni ariannol neu atal cynhyrchu. Yn yr un modd byddai rhagor o gwmnïau cyflenwi nwy a thrydan yn mynd i'r wal o ganlyniad i uchafbris OFGEM sy'n gwahardd y cwmnïau cyflenwi rhag adlewyrchu'r gost uchel iddyn nhw o brynu nwy / trydan yn y pris y maen nhw'n ei godi ar eu cwsmeriaid.

Bu Tudur Dylan Jones yn cymryd rhan yn **Noson Lawen Sir Gâr** ar **S4C** a Fflur Dafydd ar **Noson Lawen Dathlu Pen-blwydd Huw Chiswell**.

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yng Nghartref Plas-y-dderwen gyda'n Gweinidog. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl i aelodau'r Ofalaeth ymuno â'r gwasanaeth y tro hwn oherwydd amgylchiadau Covid-19 one mae'n diolch i'n Gweinidog am gynnal y fflam.

Ein dymuniadau da i John a Muriel Gibby sydd wedi symud o Lanllwch i Gartref Gofa Castell Tywi, Upland Arms, Caerfyrddin. Dymunwn bob dedwyddwch iddynt ar eu haelwyd newydd.

Bu Delyth a Nick Davies a'r plant Jac a Myfi yn cymryd rhan yn **Her Heno dros yr Amgylchedd** ar **S4C**. Yr her yw byw yn fwy gwyrdd dros yr wythnosau nesaf.

Tybed a welsoch chi'r ffilm gomedi ysgafn, *Falling for Figaro* ar **Netflix**? Mae Beca Tegryn, merch Huw Davies a'r ddiweddar Mari Lisa a fu'n aelodau yn Y Priordy, yn rhan o'r cast (fel ecstra). Joanna Lumley yw un o'r prif actorion. Stori yw'r ffilm am ferch (Americanes) fu'n gweithio ym myd arian yn Llundain sy'n dilyn ei breuddwyd ac yn hyfforddi i fod yn gantores opera.

Roedd Heledd Tomos yn un o westeion Hanna Hopwood ar y rhaglen **Gwneud Bywyd yn Haws** ar **Radio Cymru** a fu'n trafod pwysigrwydd *Wythnos Ymwybyddiaeth Colli Babi*



Hyfryd oedd gweld llun Irene Williams a chyfarchion y teulu iddi ar **Heno** ar **S4C** ar achlysur ei phen-blwydd arbennig.

AC I GLOI, llongyfarchiadau mawr i June Thomas ar ddod yn fam-gu i Guto Llewelyn, mab newydd i Lowri ac Alun a brawd bach i Madog a aned ar 26 Hydref 2021 yn Ysbyty Glangwili. Ein cofion cynnes at y teulu bach.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Rhagfyr i'n Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Beti Wyn Davies ar golli'i phriod, Dr Denzil Davies, Penarth ar 30 Medi 2021, Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth. Roeddem bob amser yn mwynhau cwmni

Beti Wyn a Denzil yn y Priordy pan oeddent yn byw yng Nghaerfyrddin ac yn aelodau gyda ni a hefyd yn ystod eu hymweliadau â'n tref wedi hynny. Coffa da am Denzil a oedd hefyd yn frawd i'r ddiweddar Yvonne Francis. Bu'n Gweinidog yn cymryd rhan yn ei angladd.

Cydymdeimlwn hefyd â John a Mair Meredith ar golli brawd yng nghyfraith John, sef William (Bill) Beynon, Talychyllau ar 29 Hydref 2021. Cofiwn am ei briod Edith a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u colled.



Y SULIADUR



Tachwedd	7	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	C
	14	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	
	21	Bore	Oedfa gyda'n Parchedig Emyr Gwyn Evans	
	28	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	

Rhagfyr	5	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog. Casgliad at Ganolfan Galw-i-mewn Capel y Bedyddwyr Saesneg	C
		Hwyr	Oedfa dan Olau Cannwyll am 5 dan ofal PIP (Pobl Ifainc y Priordy)	
	12	Bore	Oedfa Nadolig y Priordy am 3 Casgliad at Yr Ysgol Sul. Casgliad olaf y flwyddyn	
	19	Bore Hwyr	Oedfa'r Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog Oedfa'r Ofalaeth yn y Gymuned ym Mancyfelin am 5	
	26	Bore	Oedfa Ddigidol yr Ofalaeth gyda'n Gweinidog	

NOSWYL NADOLIG	
OEDFA FER DROS ZOOM AM 9.30 YR HWYR	
BORE NADOLIG	
OEDFA'R OFALAETH AM 9 YN Y PRIORDY GYDA'N GWEINIDOG	

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC							
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant N – Oedfa Nadolig am 3							
Tachwedd				Rhagfyr			
7	12	21	28	5	12	19	26
CP	✓	✓	✓	✓	N	-	-

DALIER SYLW



**Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur
mewn da bryd**

